# CYNGOR CYMUNED LLANBADARN FAWR

**COFNODION** Y **CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL** a gynhaliwyd ar we-gamera oherwydd y Coronafeirws ar **DDYDD LLUN, 25 Ionawr, 2021.**

**6.00 y.h. – 6.40 y.h.**

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr: Linda Keeler (Cadeirydd), Ben Davies, Gareth Davies, Martin Davies, David Greaney, Mark Hemingway, Tom Kendall, Andrew Loat, Dave Pain, Dafydd Pritchard, Matthew Woolfall-Jones.

**Yn gweinyddu:** **Mrs Tegwen Jones (Clerc)**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Linda Keeler, yr aelodau i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

1. **YMDDIHEURIADAU:**
   Dim.

2. **ADRODDIAD Y CADEIRYDD AM DDIGWYDDIADAU'R FLWYDDYN 2019/2020:**
   Darllenodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Linda Keeler, ei hadroddiad am y flwyddyn uchod.

3. **ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2020/2021:**
   Cynigiwyd, eiliwyd a **phenderfynwyd** yn unfrydol bod y Cynghorydd Linda Keeler yn cael ei hail-ethol yn Gadeirydd am weddill y flwyddyn.

   Derbyniodd y Cynghorydd Keeler y swydd, diolchodd i'r aelodau am y cyfle i wasanaethu Llanbadarn Fawr fel Cadeirydd unwaith eto a'i bod yn fraint fawr cael gwisgo'r Gadwyn. Addawodd gyflawni'r dyletswyddau hyd eithaf ei gallu. Diolchodd yr holl aelodau a'r Clerc i'r Cynghorydd Linda Keeler am ei gwaith cydwybnodol ar ran y Cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

4. **DERBYN DATGANIAD SWYDD Y CADEIRYDD A'I HYMRWYNIAD I GYDYMFFURFIO Â'R COD YMDDYGIAD:**
   Llofnododd y Cyng. Linda Keeler y Datganiad Derbyn Swydd gan ymrwymo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn ei sefyllfa fel Cadeirydd ar gyfer 2020/21.

5. **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/2021:**
   Cynigiwyd, eiliwyd a **phenderfynwyd** yn unfrydol bod y Cynghorydd Ben Davies yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Derbyniodd y Cynghorydd Ben Davies y swydd o Is-gadeirydd a diolchwyd iddo gan y Cadeirydd am ei gymorth yn ystod y flwyddyn.

6. **ADOLYGIAD O DREFNIADAU DIRPRWYO I BWYLLGORAU, IS-BWYLLGORAU, STAFF AC AWDURDODAU LLEOL ERAILL:**
   a) **Pwyllgorau:**
   Cafodd y trefniadau dirprwyo i wahanol bwyllgorau eu hadolygu. **Penderfynwyd** y byddai unrhyw faterion ac argymhellion yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r prif Gyngor oni bai y

byddai rhai materion angen sylw ar frys yn ystod mis Awst pan na fyddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Mewn achosion o'r fath, **penderfynwyd** y byddai'r Clerc a'r Cadeirydd yn penderfynu ar sut i weithredu.

b) **Staff:**

Y Clerc:

- Y Clerc fydd y Swyddog Priodol, a bydd yn cyflawni swyddogaethau'r Swyddog Priodol yn unol â gosodiadau Deddf Llywodraeth Leol 1972;
- Dylai'r Clerc fonitro a bod yn gyfrifol am bob gohebiaeth Cyngor sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan;
- Y Clerc fydd yn gwneud trefniadau i dalu cyflogau a thaliadau i bob un sy'n gweithio i'r Cyngor (yn amodol ar reoliadau ariannol y Cyngor);
- Yn y lle cyntaf, y Clerc fydd yn delio â phob cwyn sy'n ymwneud â'r Cyngor ac yn eu cydnabod (ac eithrio pan fydd y gwyn yn ymwneud â'r Clerc);
- Y Clerc fydd yn trefnu ac yn galw cyfarfod y Cyngor, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau gan ymgynghori â'r Cadeirydd perthnasol;
- Y Clerc fydd yn cyflawni a gweithredu unrhyw benderfyniad gan y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor;
- Yn y lle cyntaf, y Clerc fydd yn ymdrin â phob cais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**7) ADOLYGU'R CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGORAU:**

Roedd y Clerc wedi dosbarthu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau a **phenderfynwyd** eu derbyn.

**8) PENDERFYNIADAU YNGHYLCH PWYLLGORAU, IS-BWYLLGORAU AC ATI, AR GYFER Y FLWYDDYN 2020/2021**

Trefnwyd yr Is-bwyllgorau a gyfer 2020-2021 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Hamdden a Mwynderau** | Cyng. Linda Keeler |
| | Cyng. Ben Davies |
| | Cyng. Martin Davies (Cadeirydd) |
| **(6 aelod)** | Cyng. Mark Hemingway (Is-gadeirydd) |
| | Cyng. Matthew Woolfall-Jones |
| | Cyng. David Pain |
| **Cynllunio (7 aelod)** | Cyng. Linda Keeler |
| | Cyng. Ben L. Davies |
| | Cyng. Dafydd J. Pritchard |
| | Cyng. Gareth Davies (Is-gadeirydd) |
| | Cyng. Stephanie Lennon |
| | Cyng. Martin Davies |
| | Cyng. David Greaney (Cadeirydd) |

Mae *Cadeirydd* ac *Is-gadeirydd* y Cyngor yn aelodau o'r ddau Bwyllgor uchod**.**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Polisi ac Adnoddau** | Cadeirydd/Is-gadeirydd y Cyngor |
| **(6 aelod)** | Cadeirydd/Is-gadeirydd y ddau Is-bwyllgor: |

Cyng. Linda Keeler
Cyng. Ben Davies
Cyng. Martin Davies
Cyng. Mark Hemingway
Cyng. David Greaney
Cyng. Gareth Davies

**Cyd-fwrdd Claddedigaeth ( 7 aelod)**

Cyng. Ben Davies
Cyng. Dafydd Pritchard
Cyng. David Greaney
Cyng. Andrew Loat
Cyng. Gareth Davies
Cyng. Siôn Jobbins
Cyng. Martin Davies

**Gwefan (6 Aelod)**

Cyng. David Greaney
Cyng. Linda Keeler
Cyng. Martin Davies
Cyng. Gareth Davies
Cyng. Siôn Jobbins
Cyng. Dave Pain

**Pwyllgor Personel (2 Aelod)**

Cyng. L Keeler
Cyng. David Greaney
Cyng. Martin Davies

**Cofeb Rhyfel** — Pob Aelod

**Pencampwr Diogelu Data** — Cyng. David Greaney

**Dathlu 1500 Padarn Sant**

Cyng. Martin Davies
Cyng. David Greaney
Cyng. Siôn Jobbins
Cyng. Andrew Loat
Cyng. Linda Keeler

**9) SEFYDLU UNRHYW BWYLLGOR NEWYDD:**

P**enderfynwyd** peidio â sefydlu unrhyw bwyllgor newydd..

**10) ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG A RHEOLIADAU ARIANNOL PRIODOL:**

Roedd **y** Clerc wedi dosbarthu copi o'r Rheolau Sefydlog a gafodd eu mabwysiadu ym mis Mehefin 2018, a'r Rheoliadau Ariannol a gafodd eu mabwysiadu ym mis Hydref 2019.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r rhain.

**11) ADOLYGU TREFNIADAU (gan gynnwys cytundebau cyfreithiol) GYDAG AWDURDODAU LLEOL ERAILL. CYRFF DI-ELW A BUSNESAU:**

a) **Penderfynwyd** nodi bod y trefniadau gyda Chyngor Tref Aberystwyth ynglŷn â phrotocol gwisgo Cadwyn y Swydd yn parhau i fod yn foddhaol.

b) **Penderfynwyd** nodi bod Prydles a gafodd ei llofnodi ar 11 Ebrill 2016 am 25 blynedd ar Gae Chwarae Cae Ceredig mewn grym.

**12) ADOLYGU CYNRYCHIOLAETH NEU'R CYDWEITHIO AR GYRFF ALLANOL, A THREFNIADAU AR GYFER ADRODD YN ÔL:**

a) **Penderfynwyd** y byddai'r Cynghorwyr canlynol yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol.

SARPA – Cyng. David Greaney fel pwynt cyswllt;
Un Llais Cymru – Cyng. Ben Davies;
Aberystwyth Gwyrddach – Cyng. Martin Davies
Cynlluniau Lleoedd, Aberystwyth – Cyng. David Greaney
Cyng. M Davies
Llywodraethwr Ysgol Penweddig – Cyng. Dafydd Pritchard
Llywodraethwr Ysgol Gymraeg – y Clerc i gysylltu â'r Adran Addysg i ofyn pwy sy'n cynrychioli'r Cyngor

**13) ADOLYGU RHESTR TIROEDD AC ASEDAU ERAILL GAN GYNNWYS ADEILADAU A CHYFARPAR SWYDDFA:**

Dosbarthwyd copi o'r Gofrestr Asedau i bob Cynghorydd. P**enderfynwyd** derbyn y Gofrestr Asedau.

**14) CADARNHAU TREFNIADAU AR GYFER YSWIRIANT MEWN PERTHYNAS Â PHOB RISG YSWIRIADWY:**

P**enderfynwyd** derbyn yr Yswiriant o ran yr holl risgiau yswiriadwy

**15) ADOLYGU TANYSGRIFIADAU'R CYNGOR A/NEU STAFF I GYRFF ERAILL**

Adolygwyd y tanysgrifiadau a **phenderfynwyd** nodi bod y Cyngor yn talu **S**ARPA, Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

**16 ADOLYGU TREFN GWYNO'R CYNGOR:**

**Penderfynwyd** derbyn Polisi Cwynion y Cyngor.

**17) ADOLYGU POLISÏAU, GWEITHDREFNAU AC ARFERION Y CYNGOR YNG NGHYSWLLT EI YMRWYMIADAU DAN DDEDDFWRIAETH RHYDDID GWYBODAETH A DIOGELU DATA (GWELER HEFYD REOLAU SEFYDLOG 11, 20 A 21)**

P**enderfynwyd** derbyn y Polisi Diogelu Data.

**18) ADOLYGU POLISI'R CYNGOR AR GYFER DELIO Â'R WASG/CYFRYNGAU:**

**Penderfynwyd** derbyn y polisïau uchod.

**19) ADOLYGU Polisïau A GWEITHDREFNAU CYFLOGAETH Y CYNGOR:**

P**enderfynwyd** derbyn y Polisi Cyflogaeth a'r Polisi Cyfleoedd Cyfartal.

**20) ADOLYGU GWARIANT Y CYNGOR SY'N DEILLIO O ADRAN 137 , DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 NEU RYM LLESIANT:**

**Penderfynwyd** nodi:

a) mai'r gwariant a gafwyd yn ystod blwyddyn 2019/2020 oedd £3350.00;
b) mai'r swm ar gyfer pob etholwr oedd £8.12;
c) mai nifer yr etholwyr a gofrestrwyd yn Llanbadarn Fawr ar 2/1/20 oedd 1834;
d) bod y Cyngor yn llwyddo'n dda i gadw o fewn ei ffin gwario.

**21) ADOLYGU LLOFNODWYR AR GYFER Y BANC:**

**Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn llofnodi awdurdod y banc, ynghyd ag unrhyw ddau o'r cynghorwyr canlynol:
Y Cynghorwyr Linda Keeler, Dave Pain, Mark Hemingway, Ben Davies a Martin Davies

**22) ADOLYGU ASESIAD RISG:**

Adolygwyd yr Asesiad Risg ym mis Chwefror 2018 ac ar ôl ei ddosbarthu unwaith eto, **penderfynwyd** derbyn yr adroddiad.

**23) PENNU AMSER A LLEOLIAD CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR HYD AT AC YN CYNNWYS CYFARFOD BLYNYDDOL NESAF Y CYNGOR:**

Rhoddodd y Clerc **d**dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y 12 mis nesaf, hyd at ac yn cynnwys y cyfarfod blynyddol nesaf i'r aelodau.

**Penderfynwyd**

i. derbyn y dyddiadau a roddwyd gan y Clerc;
ii. nodi y bydd y cyfarfodydd yn cychwyn am 6.30 y.h. a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 6.00 y.h..

**24) CWESTIYNAU ODDI WRTH Y CYHOEDD:**

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben am 6.40 y.h.**